

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

Templed ymgynghoriad ar y Rhaglen Weithredu

Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, byddem yn croesawu cyngor ar ddatblygu'r rhaglen yn gyffredinol, gan gynnwys mewn perthynas â materion cydraddoldeb. Yn benodol, ond nid yn gyfyngedig, byddai'n ddefnyddiol i dderbyn cyngor ar:

Sefydlwyd Y Brifysgol Agored yn 1969 ac ymgofrestrodd y myfyrwyr cyntaf yn 1971. Mae'n arwain y byd o ran cynnig cyfleoedd hyblyg ac arloesol i ddysgu o bell ar lefel addysg uwch. Mae'n agored i bobl, lleoedd, dulliau a syniadau. Mae'n hyrwyddo cyfleoedd addysgol a chyfiawnder cymdeithasol drwy gynnig addysg brifysgol o safon uchel i bawb sy'n dymuno cyflawni eu huchelgais a gwireddu eu potensial.

Mae tua 8,000 o fyfyrwyr ledled Cymru yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd, ac maent wedi ymgofrestru ar gyfer mwy na 10,000 o fodiwlau. Ceir myfyrwyr Y Brifysgol Agored ym mhob un o etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ni yw darparwr addysg uwch ran amser i israddedigion mwyaf blaenllaw'r wlad. Mae mwy na thri chwarter myfyrwyr Y Brifysgol Agored yn gweithio tra'n astudio a chyda pholisi derbyniadau agored, nid oes angen unrhyw gymwysterau i astudio ar lefel gradd. Mae dros draean o'n myfyrwyr israddedig yng Nghymru yn dod atom heb gymwysterau mynediad safonol i brifysgol.

Gan weithredu ar sail mynediad agored i bob oedran, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ehangu cyfleoedd ar gyfer llwyddiant addysgol i'r rhai a gâi eu hallgáu fel arall o addysg uwch. Mae gwaith ehangu mynediad Y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnwys gweithgareddau allgymorth a gaiff eu cyfoethogi drwy weithio gyda phartneriaid ledled Cymru - gan gynnwys o fewn rhanbarthau Addysg Uwch CCAUC, eu partneriaethau Ymgynghored yn Ehangach cysylltiedig. Mae ein partneriaid eraill yn cynnwys Colegau AB, sefydliadau cymunedol, undebau llafur a chyflogwyr. Mae ein model o ddysgu agored â chymorth yn arbennig o addas i'r rhai y byddai'n anodd iawn iddynt ddod i gampws oherwydd rhesymau'n ymwneud â phellter, cyfrifoldebau gofalu neu anabledd. Daw ein myfyrwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd, gan gynnwys nifer uchel o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf - 18.1% yn 2013/14.

Fel prifysgol sy'n arwain y gad ym maes technoleg addysg, mae ein portffolio 'cynnwys agored' eang yn cynnwys unedau astudio am ddim ar OpenLearn (gan gynnwys llawer o ddeunyddiau sy'n ymwneud â Chymru) a deunydd helaeth ar YouTube ac iTunesU, lle rydym wedi recordio dros 67 miliwn o lawrlwythiadau. Yn 2014, lansiodd Y Brifysgol Agored yng Nghymru OpenLearn Cymru, sef llwyfan dysgu ar-lein am ddim sy'n darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn 2014, am y ddegfed flwyddyn yn olynol, roedd Y Brifysgol Agored ar y brig yng Nghymru o ran 'boddhad cyffredinol myfyrwyr' yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

1. Faint fydd y rhaglen weithredu'n cyfrannu at ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ehangu mynediad. Pe gellid gwneud mwy, rhowch wybod i ni.

Mae ehangu mynediad yn greiddiol i genhadaeth Y Brifysgol Agored yng Nghymru ac rydym yn croesawu datblygiad y rhaglen weithredu hon ac yn falch o gael cyfle i gyflwyno sylwadau arni. Mae'r ffocws ar

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

bartneriaethau ysgolion a cholegau â SAUau ledled Cymru yn elfen bwysig o'r agenda ehangu mynediad, a hynny'n gwbl briodol, ac mae buddsoddi yn y to iau yn hanfodol er mwyn sicrhau cyfiawnder cymdeithasol a thwf economaidd. Yn ddiau, gellid gwneud mwy i feithrin partneriaethau strategol hirdymor ac ymdeimlad o agenda gyffredin rhwng y sector AU, y sector AB a'r sector ysgolion ac rydym yn awyddus i chwarae ein rhan yn hyn o beth, gan ddefnyddio cryfderau a natur unigryw'r Brifysgol Agored.

Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod diffyg dull gweithredu sy'n cynnwys pob oedran mewn perthynas â'r rhaglen. Er mwyn sicrhau bod adnoddau a gweithgareddau ehangu mynediad yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddisgwyliadau ehangu mynediad Llywodraeth Cymru, rydym o'r farn bod dull gweithredu sy'n cynnwys pob oedran yn hanfodol. Mae'r rhaglen weithredu ddrafft yn cynnig ffocws cul ar un elfen yn unig o ehangu mynediad, a hynny ar draul bron popeth arall: plant oedran ysgol sy'n symud i addysg uwch lawn amser. Ymddengys felly nad oes lle i oedolion nac unrhyw gyfeiriad at bwysigrwydd addysg uwch ran amser yn yr agenda hon. Yn wir, ni chynhwysir unrhyw gamau gweithredu sy'n ategu datblygiad dysgu rhan amser na dysgu estynedig drwy dechnoleg.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd dull gweithredu sy'n cynnwys pob oedran mewn perthynas ag ehangu mynediad ers amser, gan ddatgan cefnogaeth barhaus i'r dull gweithredu hwn drwy gyhoeddi Datganiad ar Addysg Uwch¹ ac yn fwy diweddar, llythyr cylch gwaith i CCAUC².

Felly, gyda'i ffocws ar ysgolion yn unig, nid yw'r rhaglen weithredu bresennol yn adlewyrchu'r disgwyliadau fel y'u nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac yn wir, gallai lesteirio'r broses o'u cyflawni.

Cyfiawnder cymdeithasol a threchu tlodi

Yng Nghymru, mae 23% o bobl yn byw mewn tlodi gyda 44% o'r rhain yn blant neu'n oedolion mewn teuluoedd sy'n gweithio³. Nid yw bod mewn gwaith bellach yn diogelu unigolion rhag tlodi, ond gall meithrin sgiliau ac ennill cymwysterau lefel uwch gynnig diogelwch, yn ogystal â rhagolygon ar gyfer gwell symudedd cymdeithasol. At hynny, mae ymgymryd ag addysg uwch yn arwain at amrywiol fuddiannau o iechyd gwell a lefelau uwch o ymgysylltu democrataidd a chyfranogiad cymunedol. Mae cyflawni cyfiawnder cymdeithasol o'r fath yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a chyfeiriwyd yn benodol at y rhan sydd gan addysg uwch i'w chwarae yn hyn o beth: *"Dylai addysg uwch fod ar gael i bawb sydd â'r potensial i elwa beth bynnag eu hoed, rhyw, modd a lefel o astudio, gwlad eu tarddiad a'u cefndir"*⁴.

Hefyd, o gofio bod myfyrwyr rhan amser yn dueddol o aros yn eu cymunedau lleol, caiff addysg uwch

¹ Llywodraeth Cymru, *Datganiad polisi ar addysg uwch (Mehefin 2013)*, ar gael yn:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/130611-statement-cy.pdf>

² Llywodraeth Cymru, *Higher Education Council for Wales remit letter 2014-15*, ar gael yn:

https://www.hefcw.ac.uk/documents/about_he_in_wales/WG_priorities_and_policies/2014-15%20Remit%20Letter.pdf

³ Sefydliad Joseph Rowntree, *Monitoring Poverty and Social Exclusion in Wales 2013* (Medi 2013), ar gael o:

<http://www.jrf.org.uk/publications/monitoring-poverty-wales-2013>

⁴ Llywodraeth Cymru, *Datganiad polisi ar addysg uwch (Mehefin 2013)*, tud 15, ar gael o:

<http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/130611-statement-cy.pdf>

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

ran amser fwy o ddylanwad ac effaith fel rhan o strategaethau datblygu cymunedol. Mae'r adroddiad diweddar gan HESCU⁵ yn disgrifio dysgwyr sy'n aros yn eu cymunedau lleol i astudio fel unigolion teyrngar ('loyals') gan ddatgan eu bod yn dueddol o fod ychydig yn hŷn, yn fwy tebygol o fod yn fenywod ac yn fwy tebygol o fod wedi astudio'n rhan amser na grwpiau eraill. Roeddent yn fwy tebygol o fod o gefndir â lefelau cyfranogiad is mewn addysg uwch (AU) ac o ddal swydd ym maes addysg. Un o'r buddiannau ychwanegol sy'n gysylltiedig â hyn yw'r esiampl y mae'r rhieni hyn yn ei gosod i'w plant o ran dysgu fel teulu. Os caiff oedolion eu hallgáu o'r agenda ehangu mynediad, mae perygl y bydd gweithgareddau dysgu fel teulu, a'r buddiannau ehangach sy'n gysylltiedig â hwy, yn dioddef.

Os methir ag ymdrin â chyfraddau cyfranogiad oedolion mewn addysg uwch yna methir ag ymdrin â blaenoriaeth sylfaenol y Llywodraeth o sicrhau cyfiawnder cymdeithasol i bawb. Drwy roi'r rhan fwyaf o'r ffocws ehangu mynediad ac felly'r cyllid cyfatebol ar blant oedran ysgol, mae perygl y caiff grwpiau cyfan o fewn ein poblogaeth eu gwthio i'r cyrion ac y caiff y rhan bwysig sydd gan addysg i oedolion ei chwarae i helpu i ddatblygu cymunedau cadarn a chydlynol ei diystyru.

Twf economaidd a moderneiddio'r gweithlu

Mae blaenoriaeth Llywodraeth Cymru o ran twf economaidd yn golygu ei bod yn hanfodol ceisio cynyddu cyfran yr oedolion a nifer absoliwt yr oedolion sy'n ymgymryd ag addysg uwch, yn bennaf oherwydd newidiadau demograffig disgwylid y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o weithlu Cymru yn y 2020au eisoes yn gweithio⁶ a bydd angen opsiynau dysgu hyblyg arnynt er mwyn cyflawni'r lefelau sgiliau uwch sydd eu hangen i sicrhau twf economaidd. Ni allwn ddiybnu ar yr hyn a fydd yn fewnlif o raddedigion newydd o raglenni llawn amser sy'n lleihau. Felly, mae angen gwella sgiliau a chymwysterau ein gweithlu presennol, yn ogystal â gweithlu'r dyfodol.

Er enghraifft, mae'r sefyllfa hon yn her ddifrifol sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, megis ysgolion, gofal cymdeithasol ac ysbytai, yn ogystal â heriau tebyg yn y sector preifat. Oherwydd y newidiadau demograffig a grybwyllwyd uchod, mae llawer o broffesiynau o'r farn na fyddant yn gallu dod o hyd i raddedigion newydd yn lle graddedigion sy'n ymddeol. Tynnodd nodyn briffio Sefydliad Astudiaethau Cyllid 2014 ar drefnu gweithlu'r gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol⁷ sylw at ddiffygion addysgol ymhlith cynorthwyr addysgu yng Nghymru a Lloegr. Er mwyn ymdrin â hyn, bydd angen i sefydliadau ad-drefnu rolau a helpu cydweithwyr â lefel sgiliau is i ennill cymwysterau addysg bellach, megis Tystysgrif AU/ Diploma AU neu Raddau.

Felly, mae anghenion ein heconomi yn mynnu y dylid rhoi cydraddoldeb i ehangu mynediad i addysg uwch i'n *poblogaeth oedolion* ochr yn ochr â'r mentrau i blant oedran ysgol. Mae'r cynllun gweithredu fel y saif yn canolbwyntio gormod ar yr ail elfen, ar draul yr elfen gyntaf.

Cydraddoldeb rhwng darpariaeth lawn amser a rhan amser

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd addysg ran amser ac addysg i oedolion, ond

⁵ Charlie Ball, *Loyals, Stayers, Returners and Incomers: Graduate migration patterns* (HESCU: 2015). Ar gael yn http://www.hecsu.ac.uk/assets/assets/documents/hecsu_graduate_migration_report_january_15.pdf

⁶ Nododd Adolygiad Sgiliau Leitch a luniwyd ar ran Llywodraeth y DU yn 2006 fod 70 y cant o'n gweithlu yn 2020 eisoes wedi cwblhau eu haddysg orfodol. *Adolygiad Sgiliau Leitch* (2006), tud 1. Ar gael yn [http://www.delni.gov.uk/leitch_finalreport051206\[1\]-2.pdf](http://www.delni.gov.uk/leitch_finalreport051206[1]-2.pdf)

⁷ Sefydliad Astudiaethau Cyllid, *The public sector workforce: past, present and future* (Chwefror 2014), ar gael o: <http://www.ifs.org.uk/bns/bn145.pdf>

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

nodwyd bod y system bresennol o ariannu AU wedi arwain at sefyllfa lle y caiff buddsoddiad cyhoeddus ei wyro oddi wrth ddarpariaeth ran amser i israddedigion i ddarpariaeth lawn amser i israddedigion, fel y nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru⁸. Mae perygl bod y rhaglen weithredu yn awgrymu bod y diffyg cydraddoldeb hwn wedi dechrau symud i'r agenda ehangu mynediad.

Byddai un rhaglen weithredu ehangu mynediad yn cynnwys pob oedran a oedd yn cynnwys sut mae'r sector yn bwriadu ehangu cyfranogiad mewn ystyr fwy cyfannol, i Gymru a ledled Cymru, o fudd i'r sector ac i gymdeithas yn ehangach - byddai hyn yn cynnwys:

- Cynnwys buddiolwyr o ysgolion, colegau a'r boblogaeth oedolion ehangach
- Mynediad i addysg uwch drwy ddarpariaeth lawn amser a rhan amser, yn ogystal â dysgu o bell
- Cyfraddau cadw a llwyddiant, gan gynnwys llwyddiant o ran cymwysterau a llwyddiant ôl-raddedigion

2. Faint fydd y gweithredu a nodwyd yn cefnogi'r sector i wella ehangu mynediad i gyfleoedd addysg uwch a'n blaenoriaeth, fel sy'n cael eu nodi yn thema ehangu mynediad ein Strategaeth Gorfforaethol⁹ ac Ymagwedd Strategol CCAUC at Ehangu Mynediad. Os oes bylchau yn y rhaglen, rhowch wybod i ni.

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru yn cydnabod pwysigrwydd dulliau gweithredu oedran ysgol o ran ehangu mynediad ac o blaid eu cynnwys yn y rhaglen weithredu. Mae'n gwbl briodol bod yr unigolion mwyaf anodd eu cyrraedd ymhlith y to iau yn cael cyfleoedd teg i ystyried a llwyddo ym maes addysg uwch o gymharu â'u cyfoedion. Fodd bynnag, credwn fod ffocws y rhaglen hon ar oedran ysgol ar draul cyfranogiad oedolion, ac felly er anfantais iddo.

Mae Strategaeth Gorfforaethol CCAUC¹⁰, Strategic Approach to Widening Access¹¹ a'r Datganiad Sefyllfa ar Addysg Uwch Rhan Amser¹² yn pwysleisio pwysigrwydd dull gweithredu 'pob oedran' drwyddynt. Mae hyn yn berthnasol i gyfiawnder cymdeithasol yn ogystal â thwf economaidd:

Cyfiawnder cymdeithasol: Mae CCAUC yn hyrwyddo dulliau gweithredu cynhwysol mewn perthynas ag ehangu mynediad a chyfle cyfartal i bobl o bob oedran ac i bob dull astudio gan ei fod yn cydnabod y byddai peidio â gwneud hynny yn methu â sicrhau cyfiawnder cymdeithasol ystyrlon i Gymru.

Twf economaidd: Mae CCAUC yn cydnabod bod angen i ddulliau ehangu mynediad fod yn seiliedig ar bob oedran gan y byddai peidio â gwneud hynny yn methu â diwallu anghenion ein heconomi. Mae'r Dull Gweithredu Strategol yn cyfeirio at y newidiadau demograffig sy'n cyflwyno her o ran cau'r bwlch sgiliau yn ein gweithluoedd a phwysigrwydd dysgu sgiliau newydd i weithwyr presennol. Er mwyn

⁸ Swyddfa Archwilio Cymru, Cyllid Addysg Uwch (2013), tud 12 ar gael yn http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/HE_Finances_Welsh_2013.pdf

⁹ CCAUC [Thema ehangu mynediad y Strategaeth Gorfforaethol](#), tud 11

¹⁰ Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, *Strategaeth Gorfforaethol 2013-14 – 2015-16* (2013), ar gael o: [https://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Corporate%20Strategy%202013-14-2015-16\(w\).pdf](https://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/corporate_documents/Corporate%20Strategy%202013-14-2015-16(w).pdf)

¹¹ Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, *Strategic Approach to Widening Access to Higher Education 2013/14 to 2015/16* (Gorffennaf 2014), ar gael o:

http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2014/W14%2032HE%20Strategic%20Approach%20to%20Widening%20Access%20to%20Higher%20Education%202013_14%20to%202015_16.pdf

¹² Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, *HEFCW's Part-time Higher Education Position Statement* (Mehefin 2014), ar gael o:

http://www.hefcw.ac.uk/documents/publications/circulars/circulars_2014/W14%2024HE%20HEFCW%20Part-time%20Higher%20Education%20Position%20Statement.pdf

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

sicrhau economi ffyniannus yng Nghymru, mae CCAUC yn cydnabod yr angen am ddull ehangu mynediad sy'n cynnwys pob oedran a chyfle cyfartal.

Felly mae'n bryder nad yw'r rhaglen weithredu yn adlewyrchu pwysigrwydd dull gweithredu pob oedran a phob dull astudio - a bod perygl felly y bydd yn tanseilio cynnydd tuag at gyfiawnder cymdeithasol a thwf economaidd.

Mae'n bryder nad yw'r system bresennol ar gyfer ariannu AU, hyd yn oed gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a CCAUC i ddarpariaeth ran amser, yn sicrhau cydraddoldeb ariannu rhwng darpariaeth lawn amser a darpariaeth ran amser. Mae perygl bod y rhaglen weithredu yn awgrymu bod y diffyg cydraddoldeb hwn wedi dechrau symud i'r agenda ehangu mynediad.

Byddai un rhaglen weithredu ehangu mynediad yn cynnwys pob oedran a oedd yn cynnwys sut mae'r sector yn bwriadu ehangu cyfranogiad yn yr ystyr ehangach, i Gymru a ledled Cymru, o fudd i'r sector ac i gymdeithas yn ehangach - byddai hyn yn cynnwys:

- Cynnwys buddiolwyr o ysgolion, colegau a'r boblogaeth oedolion ehangach
- Mynediad i addysg uwch drwy ddarpariaeth lawn amser a rhan amser, yn ogystal â dysgu o bell
- Cyfraddau cadw a llwyddiant, gan gynnwys llwyddiant o ran cymwysterau a llwyddiant ôl-raddedigion

Noda CCAUC ei barodrwydd i 'werthuso ac ailddiffinio' ei diffiniad o ehangu mynediad er mwyn 'hyrwyddo cyfle cyfartal' ond nid ydym yn argyhoeddedig bod methu â chynnwys ehangu mynediad i oedolion nac astudiaethau rhan amser, sy'n thema mor greiddiol i'r dull ehangu mynediad, yn gyfystyr â datblygu'r agenda hon mewn unrhyw ffordd. Yn wir, rydym yn bryderus iawn mai cam am yn ôl yw'r cam hwn a allai arwain at oblygiadau negyddol parhaus i boblogaeth ac economi Cymru.

3. Yn benodol mewn perthynas â phartneriaethau prifysgolion gydag ysgolion a cholegau, oes yna ddatblygiadau arloesol cost-isel/ dim cost y dylem eu hystyried i wella mynd i addysg uwch, drwy addysg uwch a thu hwnt iddi?

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, byddai angen i raglen weithredu ehangu mynediad effeithiol roi cyfle i wahanol sefydliadau a mentrau weithredu'n unol â'u cryfderau. Mae gan rai sefydliadau strategaethau sefydliadol cyffredinol sy'n cynnwys recriwtio o ysgolion a'r cyfnod pontio rhwng yr ysgol a'r campws. Mae'n briodol felly y dylent barhau i ganolbwyntio ar weithgareddau o'r fath. Mae sefydliadau eraill, megis Y Brifysgol Agored yng Nghymru, yn canolbwyntio ar addysg i oedolion drwy ddarpariaeth ran amser, digidol a hyblyg a dylid hefyd gydnabod dulliau gweithredu o'r fath yn yr un modd.

Adnoddau Addysg Agored i ysgolion

Fel y darparwr astudiaethau rhan amser mwyaf i israddedigion yng Nghymru, sy'n arwain y ffordd o ran dysgu estynedig drwy dechnoleg, gall Y Brifysgol Agored yng Nghymru gyfrannu'n sylweddol at yr agenda hon, os caiff gyfle i weithredu'n unol â'i chryfderau. Er enghraifft, mae gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru amrywiaeth helaeth o adnoddau addysgol agored*. Mae'r cynnwys hwn o safon addysg uwch, am ddim i'w ddefnyddio ac am ddim i'w aildefnyddio gan addysgwyr, a gellir cael gafael ar yr holl gynnwys ar y we. Mae'r pynciau a gwmpesir yn cynnwys amrywiaeth lawn o'r gwyddorau, i dechnoleg, i'r celfyddydau. Pe bai addysgwyr yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael ac yn hyderus yn

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

eu defnyddio, gellid eu defnyddio i ategu'r ddarpariaeth bresennol, boed er mwyn diwallu anghenion y cwricwlwm neu ofynion cyfoethogi, neu'n wir ddarparu rhywbeth ychwanegol i'r rhai a ddiffiniwyd yn unigolion mwy galluog a thalentog. Yn ogystal, gellid targedu'r cynnwys hwn at athrawon o ran datblygiad proffesiynol parhaus, boed hynny er mwyn gwella eu meysydd pwnc eu hunain neu eu cyflwyno i feysydd pwnc newydd (helpu athro cemeg i addysgu ffiseg yn effeithiol, er enghraifft).

Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru mewn sefyllfa ardderchog i gynnig hyn i'r sector os caiff gyfle i wneud hynny gyda chymorth CCAUC. Gallai fod yn adnodd gwerthfawr o ran cynnig rhywbeth na all unrhyw sefydliad arall ei gynnig, ond gall weithio i ategu'r ymyriadau gwerthfawr eraill sydd ar waith rhwng prifysgolion ac ysgolion.

Ymgeiswyr Ifanc mewn Ysgolion a Cholegau (YASS)

Mae rhaglen YASS Y Brifysgol Agored, sydd eisoes ar waith yn llwyddiannus yn yr Alban ac yn weithredol yng Nghymru i raddau llai, yn cynnig amrywiaeth o fodiwlau gwyddoniaeth cyflwyniadol gan Y Brifysgol Agored i'w hastudio ar y cyd â safon UG. Mae'r rhaglen wedi'i thargeddu at bobl ifanc Fwy Galluog a Thalentog ac eraill sy'n anelu at gael lle mewn prifysgol mewn sefydliadau lle ceir galw mawr am leoedd a lle mae angen iddynt ddangos eu bod yn rhagori ar ymgeiswyr eraill. Mae'r rhaglen yn ategu'r hyn a gynigir ar hyn o bryd yng Nghyfnod Allweddol 5 ac yn ehangu eu gwybodaeth ac yn rhoi cyfleoedd iddynt wahaniaethu eu hunain yn ystod y broses gwneud cais a'r cyfweiliad derbyn.

Mae hyn o fudd arbennig i'r rheini a gaiff eu heithrio rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi traddodiadol mewn amrywiol ffyrdd e.e. y rheini mewn ardaloedd gwledig, gofalwyr ifanc, ymgeiswyr sy'n gwneud cais am y tro cyntaf o gefndiroedd teuluol difreintiedig. Mae cwblhau un o'r cyrsiau hyn yn golygu y gall y disgybl gynnwys y canlynol ar ei gais UCAS ac yn ystod unrhyw gam cyfweld: dealltwriaeth amlwg o'i ddewis bwnc ac ymrwymiad iddo, llwyddiant amlwg yn astudio ar lefel AU eisoes, a gallu a pharodrwydd i fynd y tu hwnt i'r cwricwlwm.

Mae rhaglen YASS eisoes wedi helpu llawer o ymgeiswyr anhraddodiadol i symud ymlaen a llwyddo yn y brifysgol. Os caiff ei hehangu, gallai helpu llawer mwy o fyfyrwyr Galluog a Thalentog ledled Cymru, gan eu helpu i gyflawni ar lefel safon Uwch ac ennill lle mewn prifysgol.

* i gael rhestr lawn o'n hadnoddau addysgol agored, ewch i <http://www.open.ac.uk/wales/cy/study/dysgu-ar-lein-am-ddim>

4. A oes dulliau gweithredu arloesol y dylem eu hystyried, gan roi ystyriaeth i gyfyngiadau o ran adnoddau, ac, os felly, sut allwn ni eu rhoi ar waith a'u monitro?

Adnoddau Addysg Agored i oedolion

Gellid defnyddio Adnoddau Addysg Agored mewn modd strategol i ehangu mynediad oedolion sy'n dysgu. Mae'r Brifysgol Agored yng Nghymru eisoes yn ymgymryd â hyn gan ddefnyddio ei Hadnoddau Addysg Agored ei hun - mae menter o'r enw Hyrwyddwyr OpenLearn yn defnyddio'r model 'hyfforddi'r hyfforddwr' i wella sgiliau'r rhai sy'n gweithio mewn cymunedau lleol mewn perthynas ag Adnoddau Addysg Agored Y Brifysgol Agored a sut i'w defnyddio gyda dysgwyr; ac mae Llwybrau at Llwyddiant yn helpu i gefnogi a llywio dysgwyr drwy wefan OpenLearn Y Brifysgol Agored.

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

Gallai dull gweithredu cydgyssylltiedig a strategol o dan arweiniad CCAUC roi ffocws i weithgareddau tebyg gyda mwy o oedolion mewn grwpiau blaenoriaeth - gan gau bylchau o ran y ddarpariaeth, ehangu lefelau ymgysylltu digidol ac ehangu cyfleoedd dysgu. Oherwydd natur ddigidol y rhaglen, gellid cynnwys trefniadau monitro ac olrhain yn y system er mwyn monitro canlyniadau.

(Gellir cael rhagor o wybodaeth am Hyrwyddwyr OpenLearn yn

<http://www.open.ac.uk/wales/cy/hyrwyddwypopenlearn> a Llwybrau at Lwyddiant yn

<http://www.open.ac.uk/wales/cy/astudiaeth/dysgu-ar-lein-am-ddim/llwybrau-lwyddiant>).

Mentrau dysgu fel teulu Ni fydd angen i fodolau allgymorth ganolbwyntio'n benodol ar bobl ifancach nac yn benodol ar bobl hŷn; ceir modelau sy'n gweithio gyda'r ddau, megis y dull dysgu fel teulu. Fel rhan o bartneriaeth Ymgynghoriad yn Ehangach De-orllewin Cymru, mae'r Brifysgol Agored yn chwarae rhan flaenllaw o ran cyflwyno menter ymgysylltu dysgu fel teulu, sef "Camau tuag at STEM". Bu'r fenter ar waith yn ardal Castell-nedd Port Talbot ers mis Ionawr 2014 a bwriedir iddi barhau tan fis Gorffennaf 2015. Mae'r prosiect wedi creu cyfres o weithdai lle mae rhieni/gwarcheidwaid yn ymgymryd ag arbrofion STEM ochr yn ochr â'u plant, y tu allan i oriau ysgol ond yn adeilad yr ysgol.

Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd dysgu newydd i'r oedolion - gan eu hannog a'u hysbrydoli i ystyried dysgu pellach; gan ar yr un pryd gyfoethogi dealltwriaeth y plentyn o'r cwricwlwm a'r pwnc - gan annog cyrhaeddiad a chodi ei ddyheadau. Mae'r model hwn yn rhoi blaenoriaeth i'r oedolion a'r plant fel dysgwyr, a gall arwain at fuddiannau i'r holl unigolion sy'n cymryd rhan. Gellir cael rhagor o wybodaeth am 'Camau tuag at STEM' [yma](#).

5. A oes unrhyw agweddau ar y rhaglen, neu ar roi'r rhaglen ar waith, a allai gael effaith negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol i unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig neu unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch¹³?

Mae'r rhaglen weithredu fel y saif yn canolbwyntio ar ehangu mynediad i addysg uwch i bobl ifancach, a hynny ar draul y rhai uwchlaw oedran ysgol. Mae oedran yn nodwedd warchoddedig a byddai'r dull polisi hwn, os caiff ei weithredu, er anfantais i bobl uwchlaw oedran ysgol, a hynny oherwydd eu hoedran yn unig.

Yn ogystal, gwaethygir y mater hwn ymhellach wrth ystyried grwpiau anos i'w cyrraedd a grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol sydd hefyd uwchlaw oedran ysgol. Er enghraifft, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol a'r rhai ag anabledau - os bydd y bobl hyn hefyd yn digwydd bod uwchlaw oedran ysgol, cânt hefyd eu gwthio i'r cyrion o ran unrhyw waith ehangu mynediad.

Nid yw hyn yn unol ag ysbryd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru nac unrhyw strategaethau a amlinellwyd gan CCAUC.

6. Oes yna unrhyw faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, cynaliadwyedd, neu faterion cyfrwng

¹³ Mae'r nodweddion gwarchoddedig fel a ganlyn: oedran; anabled; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.

Ymgynghoriad ynghylch Rhaglen Weithredu Ehangu Mynediad

Cymraeg y dylid eu hystyried ymhellach wrth ddatblygu drafft y rhaglen weithredu?

Mae'r rhaglen weithredu fel y saif yn canolbwyntio ar ehangu cyfranogiad mewn addysg uwch i bobl ifancach, a hynny ar draul y rhai uwchlaw oedran ysgol. Mae oedran yn nodwedd warchoddedig a byddai'r dull polisi hwn, os caiff ei weithredu, ar draul y rhai y tu hwnt i oedran ysgol, a hynny oherwydd eu hoedran yn unig. Gellid dadlau bod goblygiadau moesol i'r dull gweithredu hwn, ac o bosibl oblygiadau cyfreithiol.

Yn ogystal, gwaethygir y mater hwn ymhellach wrth ystyried grwpiau anos i'w cyrraedd a grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol sydd hefyd uwchlaw oedran ysgol. Er enghraifft, y rhai o grwpiau cymdeithasol-economaid is, ardaloedd tlotach - yn ogystal â'r rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig a'r rhai ag anabledau - os bydd y bobl hyn hefyd uwchlaw oedran ysgol, cânt hefyd eu gwthio i'r cyrion o ran unrhyw waith ehangu mynediad.

Nid yw hyn yn unol ag ysbryd blaenoriaethau Llywodraeth Cymru nac unrhyw strategaethau a amlinellwyd gan CCAUC.

7. Os oes gennych unrhyw sylwadau nad ydynt yn ymwneud yn benodol ag unrhyw rai o'r cwestiynau a amlinellir uchod, defnyddiwch y gofod hwn i'w nodi.

Gall yr adroddiadau a restrir isod ddarparu gwybodaeth ychwanegol ddefnyddiol am sefyllfa addysg uwch ran amser yn Lloegr, ac mewn rhai achosion, ledled y Deyrnas Unedig:

- HEPI, [*Flexible Learning: Wrapping Higher Education Around the Needs of Part-Time Students*](#) (2013)
- Universities UK, [*The power of part-time: Review of part-time and mature higher education*](#) (2013)
- Oxford Economics, [*Macroeconomic influences on the demand for part-time higher education in the UK*](#) (2014)
- HEFCE, [*Pressure from all sides: Economic and policy influences on part-time higher education*](#) (2014)
- Clare Callender, [*The demise of part-time undergraduate higher education in England: who cares?*](#), Sefydliad Addysg (2014)